# LAWR AR LAN Y MÔR



## FEDRWCH CHI DDIM PRYNU LLAWER AM £15 Y DYDDIAU HYN OND GALLAI £15 DALU AM 125MEDR O DRAETH GLÂN

Annwyl draeth-garwr!

Adeiladu cestyll tywod, chwilio am grancod a physgod a chasglu cregyn. Dyna oedd mynd i'r traeth yn ei olygu i mi ers talwm. A chithau 'run fath? Ond beth ydy e heddiw? Osgoi'r plastig, y poteli gwydr, y caniau a'r polystyren? Ie, fy ffrind, dim ots ble'r ydych chi – Majorca, Sir Fôn, Fflorida, Penrhyn Gŵyr, - dyna fydd plant a phobl ifanc heddiw yn ei gofio am draethau'r unfed ganrif ar hugain.

Yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf mae'r sbwriel ar ein traethau bron â bod wedi dyblu! Ers 1994 mae'r sbwriel plastig wedi cynyddu o 135%. Ac mae'r rhan fwyaf ohono'n diweddu ar ein traethau. Does ond gobeithio y bydd penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i beidio â rhoi bagiau plastig am ddim yn siopau Cymru yn lleddfu peth ar y broblem. Ond bydd hynny'n cymryd amser.

Dydy plastig ddim yn pydru ac mae'r rhan fwyaf o'r plastig a wnaethpwyd dros y blynyddoedd yn dal ar ein planed yn rhywle. Os na chaiff ei gasglu rŵan a'i ailgylchu, bydd llawer o'r sbwriel sydd ar ein traethau yno am genedlaethau eto.

Mae'n cael effaith andwyol ar greaduriaid y môr. Mewn ymchwil diweddar gwelwyd bod plastig yn stumogau 96% o'r gwylanod y graig a ddarganfyddwyd yn farw ym môr y Gogledd. Mae crwbanod y môr yn camgymryd bagiau plastig am sglefren fôr ac mewn rhai rhannau o'r cefnfor mae mwy o ronynnau o blastig nag sydd o blancton. Mae pysgod yn bwyta'r gronynnau hyn a ninnau'n bwyta'r pysgod. Efallai nad ydym yn gallu ei weld ond mae plastig yn ein cadwyn fwyd.

Daw'r plastig o nifer o leoedd fel pysgota, cychod a sbwriel meddygol. Ond y sioc fwyaf ydy mai pobl gyffredin fel chi a fi sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf ohono. Na, dydych chi ddim yn taflu sbwriel allan o ffenest y car, efallai, ond faint o bethau ydych chi'n eu boddi yn y toilet? Ac i ble maen nhw'n mynd? Ble ond y môr? Mae'n afiach!

**Am £15 gellwch helpu dad-wneud y difrod rydym wedi ei greu**

### YMUNWCH GYDA NI I LANHAU EIN TRAETHAU!

Erbyn 2020 rydyn ni'n gobeithio haneru'r sbwriel sydd ar ein traethau trwy
- berswadio'r cwmnïau mawr i leihau eu gwastraff
- cael y cyhoedd i ymuno yn yr ymgyrch 'Bagiwch a biniwch!'
- cael y cyhoedd i ymuno gyda ni yn ein hymgyrch 'Penwythnos Glanhau Traethau!'

Bydd eich cyfraniad o £15 yn helpu i dalu am yr hyfforddi a'r offer sydd ei angen i lanhau 125 medr o draeth yn ystod y 'Penwythnos Glanhau Traethau'.
Am yr un pris gallech gael hufen iâ i oddeutu 6 o bobl. A beth ddigwyddai i hwnnw? Diflannu! Ond byddai traeth glân yn aros yn wledd i'r llygaid - i ni draeth-garwyr a phawb arall!